

## Ssssssswwwwwwmmmmmm!

!Yn y cyfnod rhyfedd yma rydyn ni i gyd wedi gorfod addasu. Yng nghanol yr holl ofid a'r ansicrwydd rydyn ni wedi gorfod dod i drefn newydd. Gwneud y gorau o sefyllfa hunllefus byd-eang. Mae'n gyfnod anodd iawn i fugeilio, ond wedi dweud hynny ma' angen bugeilio nawr yn fwy nag erioed gyda chymaint o broblemau, nifer wedi colli swyddi, eraill yn llawn gofid am y dyfodol a rhai wedi rhewi mewn ofn oherwydd y presennol. Gyda'r pwyslais enfawr i ddiogelu ein hunain, i ynysu a chadw draw o'n gilydd mae hyn yn ddo'i hunan yn creu problemau meddyliol a straen emosïynol.

Rydym fel eglwysi wedi gorfod ymateb mewn ffyrdd newydd yn go gyflym. Yr un yw pwrpas yr Eglwys. Rydyn ni ar agor, rydyn ni ar waith, ond yn gorfod dysgu gwahanol ffyrdd o gyfathrebu ac i gyrraedd ein pobl, i gynnig cysur a gobaith ac i sicrhau bod ein cymunedau yn dod trwy hyn i gyd. Nid cystadleuaeth yw hyn fodd bynnag oherwydd mae pob ardal a gofalaeth yn addasu y ffordd orau gallan nhw ac yn gweithredu mewn dulliau gwahanol. Mae sawl un wedi cael blas ar yr oedfaon teledu, radio a gwasanaeth ffôn yr EBC. Mae nifer yn ysgrifennu myfyrdodau a gwasanaethau ac yn eu



postio ymlaen. Mae myfyrdodau a gweddïau ar lein ar youtube ac ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Trydar ac Instagram. Mae nifer wedi ffurfio grwpiau Whatsapp ac yn trosglwyddo pethau. Rydyn ni i gyd wedi bod yn ffonio fflat out i sgwrsio, cysuro, gwrando a chlywed lleisiau cyfarwydd. Gyda theulu diolch byth am skype a facetime. Ond beth am deulu estynedig? Nid oeddwn wedi clywed am Zoom 11 wythnos yn ôl ond nawr mae e wedi dod yn rhan annatod o fy mywyd fel Gweinidog a'r Zŵmsanaeth yn uchafbwynt wythnosol!

Mae llawer yn defnyddio Facebook Live sydd yn gyfrwng grêt, ond yn anffodus, dydy pobl ddim yn gallu gweld ei gilydd.

Dyna fantais Zoom. Diolch yn fan hyn i'r rheiny wnaeth fy helpu yn fawr a rhoi "crash course" i fi mewn mater o oriau ar sut i ddefnyddio ac addasu ar gyfer oedfa. Roedd gen i ddiffyg hyder yn wir ac roedd yr hen ddywediad Saesneg, "you can't teach an old dog new tricks" yn mynnu neidio i fy meddw! Ond diolchwn am ddoniau eraill a'r gallu sydd ganddynt i ddysgu hyd yn oed un mor ddigidol anllythrennog a fi! "Steep learning curve" yn wir. Ond dyna yw bywyd a rhaid i'r Eglwys fod yn barod i ddysgu ac i fabwysiadu'r holl gyfryngau sydd ar gael i ni er mwyn lledaenu Ei Neges Ef.

Fel Bugail mae'r gallu gweld fy mhraidd yn hwb i'r galon. Roeddwn dan deimlad mawr yn yr oedfa gynta, wrth weld pawb yn "logio 'mlaen" a sgwâr ar ôl sgwâr o wynebau cyfarwydd a chyfeillgar yn ymddangos, roedd rhaid i mi binsio fy hun i brofi fod hyn i gyd yn digwydd! Yng nghanol yr holl gymorth ymarferol rydyn ni'n gallu ei gynnig fel siopa a.y.y.b diolchwn am dechnoleg sydd yn gymorth enfawr i gadw'r ymdeimlad o berthyn yn fyw ac yn berthnasol.

Rwy'n ymwybodol bod aelodau iau yn defnyddio Zoom yn gyson gyda'u gwaith

(parhad ar dudalen 2)

## Diolch yn fawr!

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel, ac yn dygymod â bywyd ychydig yn wahanol. Mae gennym gymaint i fod yn ddiolchgar amdano bob dydd, a dydi'r cyfnod yma ddim gwahanol. Diolch am ofal iechyd, diolch am ddŵr glân, digonedd o fwyd a chartref cysurus. Diolch am gymdogion, teulu a ffrindiau.

Rydym i eisiau diolch am yr holl roddion hael tuag at waith Cymorth Cristnogol, ac am eich gweddïau a'ch anogaeth i mi ar fy her yn ystod y mis. Mae'r gronfa erbyn heddiw wedi cyrraedd £5549! Diolch o galon i chi! Rwyf bellach wedi rhedeg 160km (100 milltir) fesul rhyw 10 – 12km dair gwaith yr wythnos, ac wedi cael tywydd braf ar hyd y daith.

Un peth da sydd wedi dod o gyfyngiadau cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod yma yw'r gofal a'r cariad sydd wedi ei ddangos

yn ein cymunedau. Rydym, hefyd, wedi dod yn fwy ymwybodol o'n cymdogion byd eang. Mae'r angen yn ein byd wedi ei amlygu eto, fel ym mywydau merched a'u plant yn Nigeria sydd wedi gorfod dianc rhag terfysgwyr Boko Haram i wersylloedd am loches. Yno maen nhw'n wynebu perygl deublyg y coronavirus a diffyg maeth. Bydd eich cyfraniadau yn cynorthwyo pobl sydd mewn angen tebyg ar draws y byd.

Bydd cronfa fy sialens yn agored tan Mehefin 12ed. Gallwch gyfrannu trwy yrru sic wedi ei gwneud i 'Nia Williams', neu trwy'r dudalen Just Giving: [justgiving.com/fundraising/nia-williams28](https://www.justgiving.com/fundraising/nia-williams28)

Diolch yn fawr!

**Nia Williams**  
(Capel y Drindod, Pwllheli)



# Gwyddonydd, Ymgyrchydd, Cristion

Bu Syr John Houghton, a fu farw ar y 15fed o Ebrill eleni, yn flaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Aberdyfi (*Y Capel Saesneg*) ers 2005 mewn cyfnod pan welwyd cynnydd yn ei haelodaeth. Gorfodwyd iddo ildio'r awenau y llynedd o ganlyniad i effeithiau afiechyd Alzheimer.



Ganwyd John Houghton yn Nyserth. Symudodd ei rieni i'r Rhyl cwtâ ddwy filltir oddi yno yn fuan wedi hynny. Perthynai ei fam i'r caeth Fedyddwyr; roedd ei dad, yn Fethodist rhyddfrydol pan gyfarfu'r ddau gyntaf. Wedi iddynt symud i'r Rhyl aethant i addoli yng Nghynulliad y Brodyr yn y dre'. Ym 1948, pan oedd yn 16 oed, llwyddodd John i ennill ysgoloriaeth i Rydychen. Daeth yn aelod brwd o Undeb Gristnogol y Brifysgol ac wrth edrych yn ôl roedd yn ddiolchgar am ddylanwad a chymdeithas yr aelodau hyn, nifer ohonynt newydd ddychweyd o'r Rhyfel, a fu'n gyfrwng iddo dyfu yn y ffydd Gristnogol a'i baratoi ar gyfer y byd oedd ohoni.

Yn ystod ei yrfa bu Syr John yn Athro Ffiseg Atmosfferig yn Rhydychen, yn Bennaeth y Swyddfa Feteorolegol ac yn

Gadeirydd y Bwrdd Rhynglywodraethol ar Gynhesu Byd Eang (IPCC). Bu'n ffigwr blaenllaw yn y frwydr ryngwladol yn erbyn cynhesu byd eang; mae llyfr ganddo, *Global Warming – the Complete Briefing*, sy'n ymdrin â'r pwnc yn dal i gael ei ddefnyddio fel prif gyfeirlyfr ar gyfer is-raddedigion.

Ym 1988 pan ffurfiwyd yr IPCC (Intergovernmental Panel on Climate Change), bu John yn cadeirio neu'n cyd gadeirio'r grŵp gwaith asesu gwyddonol am oddeutu 14 mlynedd. Ef oedd prif olygydd y tri adroddiad cyntaf ddaeth o'r IPCC. Urddwyd ef yn farchog ym 1990; ac yn 2007 casglodd y Wobr Nobel ar ran yr IPCC ynghyd ag Al Gore.

Ymdrechodd yn ddygn i ddiogelu consensws yr adain dde Gristnogol yn Unol Daleithiau'r Amerig a'u darbwyllo bod newid hinsawdd yn real. I hyrwyddo agenda hwn bu'n darlithio'n gyson i ddwyn perswâd ar ei gynulleidfa. Rhoddodd un o weinidogion efengylaidd blaenllaw'r UD deyrnged i Syr John a'i ddisgrifio fel "un o wyddonwyr mwya'r byd a gyfunodd yr wybodaeth wyddonol sylweddol oedd ganddo â'i ffydd efengylaidd ddiidwyl."

Bu'n gyfrannwr cyson i raglen *Today* ar y BBC; ar y rhaglen roeddent yn awyddus iddo fod yn fwy dadleuol wrth fynegi ei safbwynt – ond pwysleisiai Syr John ei fod, fel Cristion a gwyddonydd, am gyflwyno'r hyn oedd yn wir gan osgoi codi dadleuon di-bwrpas! Ymddangosodd ddwywaith ar *Songs of Praise*, a chafodd ei gyfweid yn aml a'i wahodd i areithio ar draws y byd.

Wedi gyrfa hir ac wedi iddo ymddeol yn ôl i Gymru gweithiodd yn ddifflino i hyrwyddo'r efengyl yn Aberdyfi a'i chyffiniau; byddai'n mwynhau cerdded a hwylio a phregethai'n gyson gan gefnogi unrhyw ymgyrch Gristnogol i estyn allan at eraill. Hyd at y

cyfnod pan na fedrai wneud hynny mwych, byddai'n llywyddu cyfarfodydd y Sul os nad oedd gweinidog yn bresennol. Adeg gwyliau'r haf yn arbennig byddai aelodau o'i deulu estynedig yn ymweld ag Aberdyfi ac yr ydym, fel eglwys, wedi elwa o'u presenoldeb yn ein gwasanaethau.

**“Roedd yn wyddonydd o'r radd uchaf; sylodd ar ddryswch dirgelwch y bydysawd a gwelodd harddwch a realiti dwylo'r Creawdwr ar ei greadigaeth.”**

Cafodd Alzheimer's effaith andwyol ar ei gof ac o herwydd yr afiechyd crebachodd yr hyn y medrai ei gyflawni yn enbyd. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cyn cychwyn ar y cyfnod clo, byddwn yn cyfarfod yn ei gartref i weddio bob wythnos – roedd ei allu i fynegi ei hun yn pylu. Ond os oedd ei allu dynol yn gwanhau roedd ei Dad nefol yn deall hynny – byddai John yn ymhyfydu mewn gweddi ac ar ei fwyaf diddig wrth siarad gyda'i Dad nefol.

Disgrifiodd ein Trysorydd ef fel hyn, “Roedd yn ŵr bonheddig ac urddasol a gallu o'r radd flaenaf yn perthyn iddo.”

Wrth feddwl am John byddaf yn cofio am ei ffydd Gristnogol ddisglair a fu'n gymaint o ysbrydoliaeth i eraill. Roedd yn wyddonydd o'r radd uchaf; sylodd ar ddryswch dirgelwch y bydysawd a gwelodd harddwch a realiti dwylo'r Creawdwr ar ei greadigaeth.

Mae'n gadael gwraig, Sheila, a etholwyd yn flaenor, yn ogystal â mab a saith o wyrion – plant o'i briodas gyntaf â Margaret, fu farw o gancr ym 1986. Mae Hannah Malcolm, yr hynaf o'i wyresau, yn dilyn ôl traed ei thaid. Mae'n ymgeisydd am y Weinidogaeth gyda'r Eglwys Anglicanaidd ac wedi ennill Doethuriaeth am ddiwinyddiaeth trallod hinsawdd ac ecoleg. Mae'n gyfrannwr cyson i raglenni'r BBC.

Wedi ei farwolaeth canfuwyd ei fod yn dioddef o COVID-19. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol byr ym Mynwent Aberdyfi â'r teulu agosaf yn bresennol; roedd hi'n amser o ddathlu'r fuddugoliaeth dros angau. Canwyd yr emyn "It is well with my soul.." Emyn ydyw sy'n cloi gyda gobaith yr efengyl.

“Ond Arglwydd, disgwylw'n amdanat Ti dy Hun;

Y nef, nid y bedd fydd i ni;  
Ar ganiad yr utgorn cawn weled ein Duw!  
Hyfryd obaith a nod f'enaid i!”

(*addasiad Dafydd Job*)

Cynhelir gwasanaeth o ddiolch am ei fywyd pan fydd yr amgylchiadau yn caniatáu hynny.

**Simon Morgan**

(*Arweinydd Capel Saesneg Aberdyfi*)

## Ssssssswwwwwwmmmmmm! (parhad)

ac yn gymdeithasol ond dwi'n llawn edmygedd o'n haelodau hyn sydd wedi cymryd ato a rhai wrth gwrs yn gallu ffonio i mewn i wrando a bod yn rhan o'r gwmniaeth. Profiad unigryw yw i gyfarch cannoedd o bobl ar ddechrau'r oedfa ac un sy'n fy atgoffa o'r rhaglen “Celebrity Squares” wrth weld pawb yn chwifio'n hwyliog o fy mlaen ar y sgrin. Mae pobl yn eistedd gyda mygiau anferthol o de neu goffi, rhai wedi ystyried y cefndir yn ofalus!! Mae sawl un mewn pajamas cudd ac eraill gyda'u cŵn ac mae hyd yn oed Wali'r mochyn cwtâ yn rhan o'r oedfa! Gwelwn un pâr yn wythnosol lle mae'r wraig yn cribo gwallt y gŵr cyn setlo lawr! le wrth gwrs nid yw yr un fath â'r cofleidio a'r cusanu ar fore Sul ond gobeithiaf ei fod o gysur a bendith i'r rhai sy'n ymuno. Nid yw yn gyfrwng perffaith o bell ffordd, mae heriau.

Rhaid “mudo” pawb i gadw ansawdd y sain, nid yw'n ddelfrydol canu

cerddoriaeth drwyddo ac mae'r profiad o gyd adrodd gweddi'r Arglwydd yn “unmuted” gyda'r oedi amser ag ati yn brofiad arallfydol ac unigryw yn sicr!

Ond rydyn ni i gyd, lle bynnag yr ydym yn gwneud ein gorau dros ein cynulleidfaoedd a dwi wedi dysgu, os alla i ddod i ddeall technoleg, ma na obaith i bawb!

Fel dywedodd Christopher Robin wrth Winnie the Pooh.”Promise me you'll always remember: You're braver than you believe, and stronger than you seem, and smarter than you think.”

Diolch i chi gyd am eich gwaith difflino yn yr Eglwys i gyd, pa bynnag ddull bynnag yr ydych yn ei ddefnyddio a phob bendith i chi gyd.

**Parch Evan Morgan,**

**Darpar Lywydd y Gymanfa Gyffredinol**

# AR DAITH DRWY'R HEN DESTAMENT

Canllaw ar gyfer astudiaeth a thrafodaeth mewn grŵp bychan, gan gynnwys gwerau oedolion yr ysgol Sul neu fel deunydd myfyrdod personol (Seilledig ar y gyfrol *Geiriau Ffydd 3* gan y Parch. John Treharne, sef gwerau ysgol Sul yr oedolion am 2019/20)

Paratowyd gan y Parch. Hywel Rh. Edwards

## Gwers 39 – Sul, 21 Mehefin

'Mae ffrydiau 'ngorfoledd yn tarddu'  
(*Caneuon Ffydd*, 747)

### SEFFANEIA

y mae'r ARGLWYDD dy Dduw yn dy ganol,  
yn rhyfelwr i'w waredu;  
fe orfoledda'n llawen ynot,  
a'th adnewyddu yn ei gariad;  
llawenycha ynot â chân.  
(Seffaneia 3:17; tud. 285 yn y Gwerslyfr)

*Darllen:* Seffaneia 1:3:9–20; Rhufeiniaid 8:12–17, 37–9

#### Gweddi:

Ddiddanydd anfonedig nef,  
fendigaid Ysbryd Glân,  
hiraethwn am yr awel gref  
a'r tafod tân.

Erglyw ein herfyniadau prudd  
am brofi o'th rad yn llawn,  
gwêl a oes ynom bechod cudd  
ar ffordd dy ddawn.

Cyfranna i'n heneidiau trist  
orfoledd meibion Duw,  
a dangos inni olud Crist  
yn fodd i fyw.

(*Caneuon Ffydd*, 593)

Sut rai ydych chi am ysgrifennu cyfarchiad mewn cerdyn? Rwyf i'n ei chael yn dasg lafurus, yn aml yn methu canfod be ydw i am ei ddweud. Nid felly y mae hi yn y darlleniad o Seffaneia: mae'r cyfarchiad yn gorlifo o deimlad gwirioneddol, cadarnhaol, yn hyfrydwch i'w ddarllen. Ond os ydych wedi darllen gweddill y broffwydoliaeth fer hon mae'n annisgwyl, a dweud y lleiaf.

'Gair yr ARGLWYDD, a ddaeth at Seffaneia fab Cushi, fab Gedaleia, fab Amareia, fab Heseceia, yn nyddiau Joseia fab Amon, brenin Jwda' (1:1). Fel hyn y cyflwyno'r proffwyd ei hun, a'r tebygrwydd yw ei fod yn orwyr i'r brenin Heseceia ei hun (2 Brenhinoedd 18:1d). Treuliodd ei febyd, breintiedig, o dan ddau o frenhinoedd gwaethaf Jwda, Manasse ac Amon, a drodd galonnau'r bobl oddi wrth yr Arglwydd. Ond daw gair yr Arglwydd iddo yn nheyrnasiad Joseia, a ddaeth i'r orsedd yn wyth oed (2 Brenhinoedd 22) ac a oedd felly'n cydoesi â Habacuc a Jeremeia. Joseia oedd yr un a ganfu Llyfr y Gyfraith yn y deml ac a ddiwygiodd grefydd Jwda; mae'n gwneud synnwyr felly i feddwl fod y broffwydoliaeth yma wedi dod adeg mebyd y brenin hwn.

Nid yw'r penodau cyntaf yn dal dim yn ôl wrth gyhoeddi barn Duw ar Jwda a

Jerwsalem, ynghyd â gwledydd cyfagos. Ond, yr un pryd â'r farn, mae llwybr gwaredigaeth ar agor drwy geisio cuddfan yn yr Arglwydd (2:1–3). Sylwch, o 3:9 ymlaen, fel y mae ei fwriadau llesol i'w cyflawni. O edrych ar y broffwydoliaeth yn ei chyfanrwydd, gwelwn agwedd Tad at blentyn anystywallt a'i gyfoedion. Rhaid eu dwrddio a'u cosbi am eu hanufudd-dod ffôl, ond mae ynddo faddeuant, nid yn unig i'w ffefryn, fel petai, ond i'w gyfoedion. A dyma hyfrydwch y cyfarchiad serchus yma: 'Cân, ferch Seion; gwaedda'n uchel, O Israel; llawenha a gorfoledda â'th holl galon, ferch Jerwsalem. Trodd yr ARGLWYDD dy gosb oddi wrthyt, a symud dy elynion. Y mae brenin Israel, yr ARGLWYDD, yn dy ganol, ac nid ofni ddrwg mwyach' (3:14–15).

Fe â ymhellach yn awr:

Nac ofna, Seion, ac na laesa dy ddwylo;  
y mae'r ARGLWYDD dy Dduw yn dy ganol,

yn rhyfelwr i'w waredu;  
fe orfoledda'n llawen ynot,  
a'th adnewyddu yn ei gariad;  
llawenycha ynot â chân  
fel ar ddydd gŵyl.

Symudaf aflwydd ymaith oddi wrthyt,  
rhag bod iti gywilydd o'i blegid.

Ar adeg pan na fedrwn fwynhau canu mewn cynulleidfa, mor dda yw cael ein hatgoffa fod Duw yn gorfoleddu ynom ni yn llawen â chân. Gadewch i wirionedd a hyfrydwch y geiriau hyn lifo drosoch a mwydo i fêr eich enaid. Fel Tad mae'n gorfoleddu'n llawen ynom, am ein hadnewyddu yn ei gariad, ac yn wir yn canu'n llawen trosom. Glywsoch chi gân y Tad drosoch ac ynoch?

a gwaredigion yr ARGLWYDD fydd yn dychwelyd.

Dônt i Seion dan ganu,  
bob un gyda llawenydd tragwyddol;  
hebyngir hwy gan lawenydd a gorfoledd,  
a bydd gofid a griddfan yn ffoi ymaith.  
(Eseia 35:10)

#### Trafod ac ymateb:

1. Pam ei bod hi'n anodd cyhoeddi barn Duw heddiw?
2. Ystyriwch yr adnodau i'w darllen o Rufeiniaid 8 ochr yn ochr â'r adran o Seffaneia. A yw'r 'Abba! Dad' yn atseinio o'ch mewn?
3. Myfyriwch ar y gwirionedd fod Iesu wedi dwyn y farn a oedd i ni, er mwyn i ni dderbyn y fraint o fod yn blant i Dduw. Fe fydd yr emynau hyn yn gymorth: *Caneuon Ffydd*, 518, 530, 747.

## Llythyrau



### Oedfa deledu: gwerthfawrogiad

*Annwyl Syr,*

EISIAU CEFNOGAETH – PREGETH  
AR Y SUL

Undebau, enwadau a Chytûn wedi cydgerdded ag S4C ers blynnyddoedd a heb drefnu i gael pregeth ar y Sul, ond Coronafeirws wedi llwyddo mewn rhai dyddiau!

Fe roddodd fywyd newydd i'r bregeth, sy'n glanio bellach am un ar ddeg o'r gloch ar fore Sul ar aelwydydd Cymru, a'r hen a'r methodig yn llawenhau am fendith y bregeth ar lawr eu cartref.

Sianel yr ymdrech, er mwyn ei chael hi, fu hon. Pobol yn y carchar – ac aberthu i'r eithaf er mwyn ei chael hi.

Bydded i'r bregeth gael cadw ei lle ar y Sul ar S4C y dyfodol.

Gyda llawer o ddiolch,

*Ithel Parri-Roberts*

*Hendy-gwyn ar Daf*

*Annwyl Olygydd,*

Hoffwn ddiolch i'r Parch. John Gwilym Jones am ei erthygl ar y bardd Emily Dickinson. Roedd un o ymadroddion rhyfeddol E.D. yn gwneud i mi feddwl a chofio am y rhai o blith gweithwyr y GIG sydd wedi colli eu bywyd yn ein gwasanaethu yn ddiweddar – 'calvaries of love'. Ni allwn ond diolch a chofio.

Yn gywir,

*Dafydd F. Jones*

*Wrecsam*

# 'Mae'n ddiwedd byd yma' – pam dylem gofio 80 mlynedd ers clirio Epynt

Y manylion sy'n dal y dychymyg – yr hen wraig o flaen ei chartref cyn iddi ymadael, y swyddog o'r fyddin oedd yn methu ynganu enwau'r lleoedd, y dyn y ffrwydrwyd ei gartref – maent i gyd yn atgofion o gymuned a ddadwreiddiwyd.

Dydi chwalu cymunedau o'r fath ddim yn beth newydd, dim ond iddo ddigwydd yng Nghymru, ac nid Tryweryn mohono. Mae stori drist Capel Celyn wedi ennill ei phlwyf yng nghalonau pobl Cymru. Dydi Epynt ddim. Dyna pam, 80 mlynedd wedi'r Chwalfa, y dylai Cymru fod yn cofio am y bennod enbyd hon yn ei hanes.

Roedd y fyddin â'i llygad ar Epynt (ystyr yr enw yw hynt, neu lwybr, yr ebolion) ers y Rhyfel Byd Cyntaf, pan wnaed y rhestr gyntaf o enwau'r ffermydd. Ond ym Medi 1939, pan ddaeth yr Hillman Minx brown i fyny'r allt, yr hyn dynnodd sylw pobl oedd mai merch oedd y gyrrwr. Daeth swyddog o'r fyddin o'r car a mynd i'r ysgol. Gan nad oedd yr athrawes yn lleol, gofynnodd i'r plant helpu'r swyddog. Chwarddodd y plant yn harti wrth glywed ymdrechion y swyddog i ynganu Ffos yr Hwyaid, Gilfach yr Haidd, Cefnbryn Isaf a Llwynteg Uchaf. Ond y swyddog gafodd y gair olaf. Erbyn mis Rhagfyr, roedd si y byddai'n rhaid iddynt adael eu cartrefi. Roedd Epynt am gael ei droi'n faes tanio i'r fyddin.



*Cywain gwair yng Nghefnbryn Isaf (cartref David ac Ann Lewis, hen dad-cu a hen fam-gu yr actores Nia Roberts)*

Am bedwar o'r gloch fore dydd Nadolig 1939, cerddodd trigolion Epynt efo'u llusernau, rhai ar gefn ceffylau, i Gapel y Babell, fel y gwnaethent ers canrifoedd, i'r gwasanaeth plygain. Buont yn canu tan doriad gwawr. Diau fod rhai wedi myfyrio lle y byddent ymhen y flwyddyn; roedd yn amhosibl dychmygu gadael. Y Babell oedd canol y gymuned fynyddig. Yma y deuent

deirgwaith ar y Sul. Yma y bedyddiwyd eu plant, y priodwyd cariadon, y claddwyd eu hanwyliaid. Dyma lle cynhelid y gymanfa a'r eisteddfod flynyddol.

Drannoeth yr eisteddfod, ar Fawrth 4ydd, y daeth y llythyr swyddogol gan y Western Command. Roedd yn rhaid i deuluoedd 52 o ffermydd Epynt adael eu cartrefi erbyn diwedd Ebrill. Anfonwyd ateb at y fyddin yn dweud y byddai hynny ynghanol y tymor wyna, onid oedd modd ei ohirio? Mis yn unig yn hwy a gawsant. Nid oedd protest; roedd y gymdogaeth yn gegrwith.

Cymerodd y fyddin 30,000 o erwau yn Epynt, a bu raid i dros ddeucant o bobl a phlant adael eu cartrefi. Erbyn diwedd Mehefin, ar fore niwlog, roedd yr olaf o'r teuluoedd yn gadael. Yr un pryd, roedd Caerdydd ac Abertawe yn cael eu bomio'n ddirugaredd gan yr Almaenwyr. Siŵr iawn ei fod yn achlysur trist, ond roedd Prydain yn cael ei bygwth. Pa ddewis oedd?

Fe geisiodd Plaid Cymru wrthwynebu. Bu Gwynfor Evans a J. E. Jones yn ymweld â'r cartrefi dan fygythiad a chawsant groeso tywysogaidd. Yn anffodus, y diwrnod y trafodwyd y mater yn y Senedd oedd y dydd y dewisodd Hitler i oresgyn Norwy. Doedd dim gobaith. Meddai J. E. Daniel, "Mae Cymru yn fwy diamddiffyn o flaen Swyddfa Ryfel Lloegr nag oedd y Ffindir o flaen Rwsia." A hyd yn oed os oedd Epynt yn ddiarffordd a gwledig, roedd yn safle o bwys yn hanes Cymru. Roedd y cyfeiriad cyntaf at yr ardal yn Llyfr Llandaf yn 1135. Yma y mae cartref William Williams, Pantycelyn, a Chefnbrith, cartref John Penry.

Fesul un ac un, gadawsant eu ffermydd, gan gredu y byddent yn dychwelyd, unwaith y byddai'r rhyfel felltith drosodd. Mae rhywun yn cydymdeimlo'n arbennig â Thomas Morgan a ddeuai'n ddyddiol i Glandŵr i gynnu tân ar yr aelwyd i arbed y lle rhag tampio. Dywedodd y milwyr wrtho am beidio dod, ond dal ati a wnaeth. Un dydd, roedd yn nesu at y fan pan ganfu fod Glandŵr wedi diflannu. Roedd y fyddin wedi ffrwydro'r ffermyd.

Yn raddol, fe wawriodd arnynt – doedden nhw byth yn mynd i ddychwelyd i'r Epynt. Falle fod rhai yn gwybod hynny o'r dechrau. Mynnodd un wraig fynd â drws y tŷ gyda hi;



*Waunlwyd – yma, ar ddiwrnod 'madael y teulu, y dywedodd y fam-gu wrth Iorwerth Peate am fynd ar ei union yn ôl i Gaerdydd am ei bod hi'n 'ddiwedd byd fan hyn'*

doedd o ddim defnydd i neb arall. Penderfynodd Iorwerth Peate, pennaeth Sain Ffagan, fynd draw efo'i gamera ar y diwrnod olaf i gofnodi'r achlysur. Wrth gefn Waunlwyd roedd lorri ddodrefn yn brysur yn pacio. Aeth Iorwerth Peate rownd i flaen y tŷ wedi cael caniatâd i dynnu lluniau. Yno y gwelodd wraig 82 oed yn eistedd mewn cadair freichiau, a dyma eiriau Iorwerth Peate:

Nis anghofiaf byth: yno yr eisteddai fel delw gan syllu i'r mynydd-dir a'r dagrau'n llifo i lawr ei gruddiau. Fe'i ganesid yno, a'i thad a'i thaid o'i blaen. Mae'n mynd heddiw a dyma hi'n cronni i'w munudau olaf yr olwg gyfoethog ar yr hen fynydd neu'n ail-gofio dyddiau ei heinioes yn yr hen dyddyn. 'Dwn i ddim: ond dyna lle yr oedd ac ni welwn i ond dagrau ei hing. Teimlwn fy mod wedi torri ar sacrament a cheisiais ddianc yn dawel oddi yno. Ond fe'm gwelsai. Heb symud na llaw na phen na llygad, gwaeddodd arnaf: "O ble'r ych chi'n dod?" "O Gaerdydd," meddwn innau. Wrth weld mai Cymro oeddwn, ciliodd y sarugrwydd, ac amlhaodd y dagrau. "Fy machgen bach i," ebe hi, "ewch yn ôl yno gynted ag y medrwh, mae'n ddiwedd byd yma." Ac er fy mod yn gwybod fod bomiau'r Ellmyn yn disgyn ar Forgannwg y dyddiau hynny, gwyddwn mai hi oedd yn iawn: yr oedd yn ddiwedd ar ei byd hi.

*Y Llenor (1941)<sup>1</sup>*

A fyddai Epynt wedi gallu cael ei achub? O ystyried yr hinsawdd wleidyddol ym 1940, dwi'n amau'n

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

# 'Mae'n ddiwedd byd yma' (parhad)

fawr. Ac eto, yn wahanol i Gapel Celyn, nid yw'r tir wedi diflannu. Efallai fod gobaith o'i gael yn ôl ...

Ymwelais ag Epynt gyntaf ym 1992. Ro'n i wedi cael gwahoddiad gan Gymdeithas y Cymod i siarad mewn rali yno, wedi iddynt gael caniatâd yn gyntaf gan y fyddin. Er mawr gywilydd i mi, doeddwn i ddim wedi clywed hanes Epynt o'r blaen. Yr hyn a'm dychrynodd fwyaf oedd y pentref ffug yno, y FIBUA (Fighting in Built-up Areas). Wedi dymchwel y capel, yr ysgol a'r ffermydd, cododd y fyddin, ym 1988, ffug bentref i ymarfer lladd. Mae yno ffug fynwent, credwch neu beidio, efo ffug feddi fel y gall y milwyr guddio tu ôl iddynt. Ddechrau'r nawdegau, gan mai yn Bosnia yr oedd y

brwydro'n digwydd, roedd hyd yn oed enwau Serbo-Croat ar y strydoedd. Nid tir cysegredig mohono bellach, ond maes lladd.

Roedd teulu Glyn Powell ymysg y rhai gafodd eu troi o'u tai, ond dychwelodd Glyn i Epynt. Nid o ddewis – roedd yn gwneud ei Wasanaeth Cenedlaethol yn y pumdegau. Rhyfel Korea oedd yn digwydd bryd hynny, a dysgwyd Glyn i fod yn filwr ar dir ei gyndeidiau. Mae bellach yn ei nawdegau, ac yn cofio'r amodau caled: cysgu ym muarth Ffos yr Hwyaidd, 'ynghanol y gwybed a'r dom defaid'. Ei ofid o oedd fod calon Cymreictod Brycheiniog wedi ei rhwygo.

Mae Glyn Powell a gweddill plant Epynt yn dal i ymgyrchu. Gan fod tir



Caroline Evans, tafarnwraig y Drovers (Tynymynydd) a Jack, ei mab, wrth ddrws y dafarn



Sioe stalwyni ar fynydd Epynt, 1930

Epynt wedi ei ddifetha am byth gan ffrwydron, mae'n amhosibl ei ffermio byth eto – mae gormod o wenwyn ynddo. Ac ers y nawdegau, yn hytrach na chilio, mae'r fyddin wedi perchnogi mwy o dir yn yr ardal. Yma yr hyfforddwyd y milwyr fu'n ymladd yn Afghanistan ac Irac. Mae'n felltith sy'n parhau.

Ond hyd yn oed os na ellir cael y tir yn ôl, mae Glyn ac eraill yn benderfynol na chaiff yr hanes mo'i anghofio. Mae o wedi trosglwyddo'r stori i Bethan ei ferch, sydd wedi ei throsglwyddo i'w merch hithau. Yn ddiweddar, sefydlwyd tudalen Facebook o'r enw **Atgofion Epynt**, a phob dydd, tan ddiwedd Mehefin, mae enw un fferm a gollwyd yn cael ei ddangos yn ddyddiol. Pan oedd teuluoedd Epynt mewn angen yn yr hen ddyddiau, byddent yn gosod cyfnas wen o flaen y tŷ, a deuai cymdogion i'r adwy. Dwi'n ystyried y dudalen Facebook fel fersiwn fodern o'r gyfnas wen. Mae'n alwad am gymorth, mae'n gri o'r galon arnom i beidio gadael i Epynt fynd yn angof. Dameg ydyw, am gamddefnydd o dir, am drechu cymdogaeth, am golli cymuned. Dylai fod ar faes llafur pob ysgol yng Nghymru a thu hwnt.

*Angharad Tomos*

(Fersiwn lawnach o erthygl Saesneg a ymddangosodd gyntaf ar wefan Nation.Cymru)

Lluniau a chapsiynau drwy law Euros Lewis.

1 Atgynhyrchwyd yn llyfr Herbert Hughes, *Mae'n ddiwedd byd yma*. (Gwasg Gomer, 1997)

**S4C**

**Sul, 14 Mehefin**

**Oedfa Dechrau Canu  
Dechrau Canmol  
am 11:00yb**

gyda'r Parch. Ddr. Alun Tudur,  
Caerdydd, yn arwain.

**Dechrau Canu  
Dechrau Canmol  
nos Sul am 7:30yh**

(ailddarlliedir y bore Sul canlynol  
cyn yr oedfa)

Yr wythnos yma cawn weld sut mae cymunedau yn dod at ei gilydd mewn ffyrdd gwahanol yn ystod y cyfnod yma. Byddwn yn treulio amser gyda chymuned egniol y Ffynnon yn Llandysul, a hefyd yn gweld sut mae cymuned glòs Llanuwchllyn yn ymgynnull i gyd-ganu emynau ar y stryd. Cawn hefyd fwynhau perfformiad gan y mezzo-soprano Sian Meinir o Emyrn yr Ynysu.

**BBC** | radio  
cymru

**Caniadaeth y Cysegr**

**Sul, 14eg Mehefin  
7:30yb a 4:30yp**

Y Parchedig R. Alun Evans sy'n cyflwyno Saith ar y Sul, is-gyfras Caniadaeth y Cysegr. Heddiw, cantorion capeli Bedyddwyr gogledd Penfro sy'n dewis eu hoff emynau o gymanfa a gynhaliwyd yng nghapel Blaenffos

**Oedfa Radio Cymru  
am 12:00yp, 14 Mehefin:**

Aled Lewis Evans, Wrecsam.

Mae Radio Cymru wedi newid trefn y ddarpariaeth grefyddol ar y Sul ers mis Ebrill, gyda'r arlwy yn edrych fel hyn bellach:

7:30yb Caniadaeth y Cysegr  
12:00yp Yr oedfa  
12:30yp Bwrw Golwg  
16:30yp Caniadaeth y Cysegr  
(ailddarlliediad)

# 'Nesáu at Dduw sydd dda i mi' – pobl Prydain yn chwilio am ffydd o dan gyfyngiadau Covid-19

- Dywed bron i hanner oedolion y Deyrnas Unedig (44%) eu bod yn gweddio
- Mae chwarter (24%) oedolion y Deyrnas Unedig yn dweud eu bod wedi gwyllo neu wrando ar wasanaeth crefyddol ers dechrau'r cyfyngiadau oherwydd y pandemig
- Mae dros hanner y rhai sy'n gweddio (56%) yn cytuno bod gweddi yn newid y byd

Mae gweddi yn rhan hanfodol o fywyd i'r cyhoedd, gydag ychydig llai na hanner oedolion y Deyrnas Unedig (44%) yn dweud eu bod yn gweddio, ac ymhlith y rhai sy'n gweddio, mae traean (33%) yn dweud eu bod wedi gweddio ers cyfyngiadau COVID-19 oherwydd eu bod nhw'n credu ei fod yn gwneud gwahaniaeth. Dyna ganlyniadau arolwg barn newydd o 2,101 o oedolion a gynhaliwyd ledled Prydain gan Savanta ComRes1 ar gyfer yr asiantaeth ddatblygu Gristnogol Tearfund.

Gydag eglwysi ar gau oherwydd cyfyngiadau ar gynulladau o bobl, mae miloedd o eglwysi yn ffrydio'u gwasanaethau ar-lein. Mae chwarter (24%) oedolion y Deyrnas Unedig yn dweud eu bod wedi gwyllo neu wrando ar wasanaeth crefyddol ers y cyfyngiadau (ar y radio, yn fyw ar y teledu, ar alw neu wedi'i ffrydio ar-lein); mae hyn yn neidio i dri chwarter (76%) ymhlith eglwyswyr rheolaidd. Nid yw un o bob ugain o oedolion y Deyrnas Unedig (5%) sy'n dweud eu bod wedi gwyllo neu wrando ar wasanaeth crefyddol ers y cyfyngiadau erioed wedi bod mewn eglwys.


Mae traean (34%) oedolion y Deyrnas Unedig rhwng 18 a 34 oed yn dweud eu bod wedi gwyllo neu wrando ar wasanaeth crefyddol ers y cyfyngiadau (ar y radio, yn fyw ar y teledu, ar alw neu wedi'i ffrydio ar-lein); mae hyn yn cymharu ag un o bob pump (19%) o oedolion dros 55 oed.

Er y gall rhai ystyried bod crefydd yn fwy deniadol i'r genhedlaeth hŷn, mae'r ymchwil yn dangos bod oedolion iau, 18–34 oed, yn sylweddol fwy tebygol o ddweud eu bod yn gweddio'n rheolaidd (o leiaf unwaith y mis) nag oedolion 55 oed a hŷn (30% o'i gymharu â 25%).

O ran pynciau gweddi poblogaidd ymhlith y rhai sy'n dweud eu bod yn gweddio, mae dros eu hanner (53%) yn dweud eu bod wedi gweddio dros aelodau'r teulu, mae chwarter (27%) wedi gweddio dros wasanaethau rheng flaen ac mae un o bob pump (20%) yn dweud eu bod wedi gweddio dros rywun sy'n sâl gyda COVID-19. Dywed ychydig dros un rhan o chwech o'r rhai sy'n gweddio

(15%) eu bod wedi gweddio dros wledydd eraill gyda COVID-19, gan dynnu sylw at yr her i'r elusen Tearfund ac eraill tebyg i annog mwy o bobl i weddio dros faterion byd-eang.

Mae'r canfyddiadau newydd ar weddi yn datgelu cred gref yng ngrwm gweddi i sicrhau newid cadarnhaol yn y byd. Ymhlith y rhai sy'n gweddio, dywed dwy ran o dair (66%) eu bod yn cytuno bod Duw yn clywed eu gweddiâu ac mae dros eu hanner (56%) yn dweud eu bod yn cytuno bod gweddi yn newid y byd. Mae hanner y rhai sy'n gweddio (51%) yn cytuno'u bod wedi bod yn dystion i atebion i'w gweddiâu eu hunain ac mae dros ddwy ran o bump (43%) yn cytuno bod eu gweddi yn newid bywydau pobl sy'n byw mewn tldi mewn gwledydd sy'n datblygu.



Llun: Edrei Cueto/Tearfund

*Gweddi wrth ddsbarthu 500 o becynnau bywd i deuluoedd bregus yn nghynghorau Algodonol a Santa Lucía yn Barranquilla, Colombia, fel ymateb i'r pandemig Covid 19.*

Dywed Dr Ruth Valerio, Cyfarwyddwr Eiriolaeth Byd-eang, Tearfund: 'Mae'n galonogol gweld faint o bobl y Deyrnas Unedig sy'n gweddio yn ystod cyfnod mor heriol. Ein profiad yn Tearfund yw bod gweddi a gweithredu ymarferol yn mynd law yn llaw, ac maent ill dau yn ffyrdd hanfodol o ymateb. Gyda chyfraddau COVID-19 yn parhau i godi ledled y byd, rydym yn galw ar fwy o bobl i weddio a gweithredu.'

Ochr yn ochr â gweddio am y sefyllfa, mae Tearfund yn ymateb i'r pandemig Coronafirws ledled y byd drwy ddarparu cymorth hylendid a glanweithdra hanfodol i leihau'r risg o gael yr haint. I ddarganfod mwy am waith Tearfund ac i anfon rhodd, ewch i [www.tearfund.org/covidinfo](http://www.tearfund.org/covidinfo).

Mae canfyddiadau eraill yr arolwg yn cynnwys y canlynol:

- Bod chwarter oedolion y Deyrnas Unedig (26%) yn dweud eu bod yn gweddio'n rheolaidd (o leiaf unwaith y mis).

- Bod un o bob ugain (5%) o oedolion y Deyrnas Unedig yn dweud eu bod wedi dechrau gweddio yn ystod cyfnod y cyfyngiadau ond heb fod wedi gweddio o'r blaen.
- Ymhlith y rhai sy'n gweddio, dywed bron eu hanner (45%) eu bod wedi gweddio ers y cyfyngiadau oherwydd eu bod yn credu yn Nuw; mae traean yn credu bod gweddi yn gwneud gwahaniaeth (33%); mae chwarter (26%) yn dweud eu bod wedi gweddio ar adegau o argyfwng personol neu drasiedi; a dywed chwarter (24%) eu bod wedi gweddio er mwyn cael cysur neu i deimlo'n llai unig.
- Mae chwarter (25%) y rhai 18–24 oed sy'n gweddio yn dweud eu bod wedi gweddio dros ymateb llywodraeth y Deyrnas Unedig i COVID-19; mae'r ffigwr hwn yn fwy na'r ffigwr ar gyfer pob grŵp oedran arall (15% ar gyfer y rhai 25–64 oed a 23% ar gyfer y rhai 65+).
- Mae dynion yn sylweddol fwy tebygol na menywod i ddweud eu bod wedi gwyllo neu wrando ar wasanaeth crefyddol ers y cyfyngiadau (ar y radio, yn fyw ar y teledu, ar alw neu wedi'i ffrydio ar-lein) (28% o'i gymharu â 21%, yn y drefn honno).
- Ers y cyfyngiadau, mae un o bob pump (18%) o oedolion y Deyrnas Unedig wedi gofyn i rywun arall ddweud gweddi ac mae un o bob pump (19%) o oedolion y Deyrnas Unedig yn dweud eu bod wedi darllen testun crefyddol yn ystod y cyfnod.
- Y pum peth uchaf ar y rhestr i weddio yn eu cylch yn ystod y cyfyngiadau ymysg oedolion y Deyrnas Unedig sy'n gweddio yw: teulu (53%), ffrindiau (34%), diolch i Dduw (34%), chi'ch hun (28%) a'r gwasanaethau rheng flaen (27%).

## Cyfeiriad Golygydd Y PEDAIR TUDALEN

Huw Powell-Davies

[pedair.tudalen@gmail.com](mailto:pedair.tudalen@gmail.com)

neu Llifor, 60 Ffordd Rhuthun,  
Yr Wyddgrug, CH7 1QH

Anfonwch eich erthyglau, hysbysebion  
a.y.y.b. i'r cyfeiriad uchod.

Mae'r Pedair Tudalen Gydenwadol yn cael eu cynnwys yn rhan o bapurau wythnosol tri enwad, sef *Y Goleud* (Eglwys Bresbyteriaidd Cymru), *Seren Cymru* (Undeb Bedyddwyr Cymru) a'r *Tyst* (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

# Iesu yn Arglwydd

Yn ystod y swper arbennig cyn iddo gael ei gymryd i'r ddalfa, ac i'r groes, mae Iesu'n cyfeirio ato'i hun fel Athro ac Arglwydd. Mae wedi cyfeirio ato'i hun fel Arglwydd wrth draddodi'r bregeth sy'n cael ei chofnodi gan Mathew ac ar nifer o achlysuron eraill. Mae'n werth nodi rhai o eiriau Iesu wrth ei ddisgyblion cyn iddo eu gadael am y tro olaf;

*Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi.*

Yn ei lythyr at yr eglwys yn Philipi mae gan Paul hyn i'w ddweud;

*Am hynny tra dyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw, fel wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn*

*Arglwydd, er gogoniant Duw Dad.* (Philipiadaid 2.9-11).

Mae nifer o'n hemynau yn dechrau trwy gyfarch Iesu fel Arglwydd. Dyma un enghraifft;

*Arglwydd Iesu, llanw d'Eglwys â'th Lân  
Ysbryd di dy hun  
Fel y gwasanaetho'r nefoedd drwy roi'i  
llaw i achub dyn;*

Mae'r geiriau uchod gan Iesu, a hefyd gan un o brif arweinyddion yr Eglwys fore, yn ein atgoffa bod ein bywyd o ddydd i ddydd dan Ei arglwyddiaeth.

Mae'n debyg mai'r cwestiwn ddylem ni ei ofyn yw beth mae ein Harglwydd yn ei ddisgwyl gennym fel ei ddilynwyr? A ydyw wedi rhoi canllawiau inni i'w dilyn?

Pwyslais Iesu wrth egluro'i weithred yn golchi traed y disgyblion oedd iddynt fod â gofal dros ei gilydd. Mewn rhan arall o'i sgwrs mae'n dweud hyn;

*Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i. Ac fe ofynnaf innau i'm Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr (Cyfnerthwr) arall i fod gyda chwi am byth.* (Ioan 14.15-16)

Mae'n sefyll i reswm fod pob un sy'n dilyn yr Iesu, ac yn ei gydnabod yn Waredwr, yn awyddus i

fod yn ufudd iddo. Y broblem yw gwybod sut i wneud hynny. Yr hyn sy'n galondid inni yw nad oes raid inni fod yn y tywyllwch. Mae geiriau Iesu gennym ac mae addewid Iesu o bresenoldeb yr Ysbryd Glân ar gael inni.



Mewn erthygl gan Stephen Nantlais Williams, ŵyr i Nantlais, mae'n trafod y posibilrwydd o "Ddiwygiad" fel yr un yn nechrau'r ganrif o'r blaen, mae'n nodi'r lle amlwg sydd i edifeirwch ymhob deffroad ysbrydol.

Pan yn meddwl am edifeirwch yr ydym yn tueddu i feddwl yn nhermau pechodau rhywiol neu anfoesol yn unig. Efallai mai ein hesgeulustod a'n difaterwch ysbrydol sy'n gyfrifol am gyflwr ysbrydol llawer ohonom ar hyn o bryd.

I ba raddau tybed y dylem ni orfod cyfaddef ac edifarhau nad yw'r Beibl yn golygu llawer inni. Pa mor aml ydym ni yn ei ddarllen yn feddylgar ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w ofynion arnom yn ein bywyd bob dydd? Gwyddom fod Iesu yn rhoi pwyslais mawr ar yr Ysgrythurau (Hen Destament) gan bwysleisio fod llawer ynddynt amdano ef ei hun. Fe gofiwn ei eiriau wrth y ddau ar y ffordd i Emaus ac wrth y disgyblion yn Jerwsalem, wedi iddo atgyfodi. Dyma beth oedd ymateb y ddau yn Emaus wedi i Iesu eu gadael.

*Onid oedd ein calonnau ar dân ynom wrth iddo siarad â ni ar y ffordd, pan oedd yn egluro'r Ysgrythurau inni?*

Gall yr un peth fod yn wir am ein methiant mewn gweddi, er bod Iesu wedi rhoi pwyslais mawr ar hynny hefyd. Mae Luc yn nodi dwy enghraifft lle mae Iesu'n rhoi pwys ar ein cyfrifoldeb i weddio.

Gwyddom, wrth gwrs, bod gennym batrwm gweddi wedi ei roi inni. Mae hyn i gyd yn dweud bod gweddi i fod yn rhan ganolog o'n profiad ysbrydol.

A oes angen i ni sy'n cyfrif ein hunain yn Gristnogion gydnabod ein bod ar fai? A oes angen inni ail feddwl? A oes gan unrhyw eglwys obaith i lwyddo'n ysbrydol oni bae ei bod yn rhoi amser i astudio'r Beibl yn feddylgar, ac i geisio Duw mewn gweddi?

**Tom Williams, Dinbych.**

## Hunanynysu – cyfle i astudio?



Ar gychwyn yr hunanynysu ym mis Mawrth roeddwn i'n methu meddwl sut byddwn yn llenwi fy nyddiau. Erbyn hyn dw i'n methu meddwl sut mod i mor brysur. Ond os ydych chi'n awyddus i wneud defnydd o'r cyfnod arbennig yma, mae yna gyrsiau Beiblaidd gwerth chweil ar gael ar lein.

Mae nifer ohonom yn cyfarfod yn wythnosol dros Zoom i wneud **Cwrs y Beibl**, sef cwrs y Feibl Gymdeithas sy'n rhoi trosolwg o'r Beibl, gan garlamu mewn 8 pennod o "Y Creu a'r Cyfamod" drwodd i'r 'Datguddiad'. Mae yna fideo byr a llyfryn, sy'n cysylltu efod adnodau perthnasol. Bu'n ddiddorol clywed hanesion rhai o gymeriadau lliwgar llai cyfarwydd yr Hen Destament. Ond arbenigedd y cwrs yw ei fod yn egluro stori cyfan y Beibl – ble mae'r darnau gwahanol yn ffitio i'r darlun mawr, o ymwneud Duw â dynoliaeth.

**Delyth Oswy Shaw**  
(Cyd-lynydd Hyfforddiant EBC)

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Yn ystod y cyfnod hwn gwerthfawr yw oedi a threulio amser yn myfyrio ar air Duw yng nghwmni'n gilydd. Yr ydym yn dilyn awgrymiadau gan y Llithiadur Diwygiedig Cyffredin ar gyfer y Sul.

## Tystiolaeth a thystion

Yn ein darlenniadau yr wythnos diwethaf gwelwom Iesu'n anfon ei Apostolion i'r byd nid yn gymaint i gael "aelodau" i glwb sanctaidd ond i "wneud disgyblion" drwy'r byd. Rhoddwyd iddo bob awdurdod, ym mhob oes, ym mhob sefyllfa am byth a'r hawl i alw'r ddaear yn grwn i ufuddhau iddo.

Wedi bod yng nghwmni'r Iesu caiff yr Eglwys ei anfon allan ar ei ran am y tro cyntaf.

Heddiw gwelwn enghraifft o'r apostolion, wedi iddynt fod yng nghwmni'r Iesu, yn cael eu hanfon allan am y tro cyntaf

**EMYN 364** – O tyred Arglwydd mawr

## DARLLEN – Mathew 9:35–10:4.

Gwelwn yn yr adnodau nad fel "disgyblion" yr adnabyddir y deuddeg mwyach ond fel "apostolion" – y rhai a gafodd eu hanfon. Adeiladwyd yr eglwys ar dystiolaeth yr apostolion cynharaf i'r Arglwydd Iesu Grist a dibynna ei pharhad ar ein ffyddlondeb ninnau i'r dystiolaeth heddiw.

Cawn ninnau os ydym yn ffyddlon i'w tystiolaeth, ein symbylu gan dosturi Crist-debyg (ad 36). Oni welwn ninnau ein Cymru ni, a'n byd yn ei ddrwschw, fel "defaid heb fugail" ar chwâl, yn wledd i fleiddiaid difaol ein hoes? Deisyfwn "ar Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf" heddiw.

## GWEDDI

### Cyflwyniad i'r darlenniad

Mae'r adnodau nesaf yn herio'n blaenoriaethau i gyd fel unigolion ac eglwysi. Wrth i ni ufuddhau iddo mae Iesu'n disgwyl y daw gwrthwynebiadau ac erledigaeth i'n rhan. Mae Iesu'n defnyddio'r gair "peidiwch" (ad. 5, 9, 19, 26, 34) a "gochelwch" (ad. 17) fel rhybuddion i'n cadw rhag colli golwg ar ein galwad.

### Darllen Mathew 10:5-8 – Peidiwch â cholli golwg ar eich cenhadaeth i'ch cenhedlaeth

Dim ond yn eu cenhadaeth mae adnabod pobl Iesu Grist ym mhob cenhedlaeth. Ond fel cwningen wedi ei ddallu gan olau car ac nad yw'n gwybod ble i droi am ddihangfa gallwn ninnau edrych ar y byd, ei drafferthion a'i angen a chael ein drysu gan yr holl angen. Ble mae dechrau? Cyn

mentro i'r "holl fyd" (ac mae hwnnw'n rhan annatod o'n galwad) cafodd y disgyblion eu cyfeirio at y lleol, yr agos atynt, eu pobl eu hunain – at "ddefaid colledig tŷ Israel". Bydd eu neges a'i gweithgarwch sy'n tyfu o'i argyhoeddiad yn ddatganiad i'r byd nad ymerodraethau, arlywyddion na Phrif Weinidogion sy'n rheoli, na chreulondeb dieflig, na dioddefaint. Daeth Teyrnasiad Duw yn agos yn Iesu Grist yn llawn gras a gwirionedd. Sylweddoliad grasol i'w rannu'n hael yw'r sylweddoliad hwn am ddyfodiad Teyrnasiad Duw atom yng Nghrist.

### Darllen Mathew 10:9-15 – Peidiwch ag oedi ar y daith

Camau babi oedd yr ymgyrch hwn, nid y marathôn diweddarach. Ac eto mae yna egwyddorion syml, perthnasol i ni heddiw yn yr adnodau. Meddyliwch er enghraifft am faint o arian sy'n cael ei wario yn ein capeli'n lleol ar gynnal yr adeiladau. (Nid dweud yr ydym ein bod yn ddibris o'n cyfrifoldebau yr ydym fan hyn!) Ond o'i gymharu â faint ydym yn ei wario ar ein cenhadaeth, ar estyn allan, ar rannu'r newyddion da- pryn sy'n cael y flaenoriaeth? Onid yw Iesu'n awgrymu y dylem deithio'n ysgafn? Peidiwch â chario'r holl fagiau trwm sy'n ein arafu. Neges o dangnefedd- o gyfannu, am ddyfodiad Teyrnasiad newydd gydag egwyddorion newydd yw ein neges. Cyhoeddwyd eich neges ac o'i dderbyn daw "tanganfedd" i'r tŷ ac i'r ardal meddai. Ond mae gwrthod yr efengyl yn dwyn ei ganlyniadau hefyd. Lle trist iawn yw'r dref, y ddinas neu'r wlad a wrthododd ddyfodiad Teyrnasiad yr Un Nefol. Nid nifer ei gapeli, neu ei Feibla, neu pa mor aml y bydd ei arweinwyr yn proffesu ymlyniad crefyddol sy'n mesur derbyniad Arglwydd "tanganfedd". Os gwrthodir yr Arglwydd gwrthodir ei dangnefedd iachusol. Ac nid yw ei effeithiau, meddai Iesu, yn gyfyngedig i fyd hanes ac amser. "Caiff tir Sodoma a Gomorra lai i'w ddiodeff yn Nydd y Farn na'r dref honno" yw asesiad y brenin a barnwr byd. Mae'r cyfan a welwn fel pe bai'n cael ei ysgwyd mewn gogrn tragwyddol fawr.

### Darllen Mathew 10:16-23 – Peidiwch â phryderu

Ar draws y byd heddiw mae yna filoedd o Gristnogion sy'n ofni cnoc ar ddrws gan heddlu neu swyddogion y wladwriaeth i'w cipio i garchar. Caiff rhai eu cyhuddo o fod yn deyrnfradwyr, eraill gan lysoedd crefyddol am gabledd. Caiff eraill eu

poenydio, eu treisio, eu cam-drin – dim ond am fod enw Iesu yn eu calon ac ar eu gwefusau. Mae hanes Cymru'n frith o hanesion pobl ddiodeffodd er mwyn eu ffydd.

I ymddwyn fel ei ddilynwyr yn y byd ni ddylem fod yn naif ond yn hytrach yn gall ac yn ddiniwed. Ni ddylem chwaith gredu popeth a ddywedir nac a glywn gan bobl eraill. Gall satan ymddangos yn rhith angel goleuni!

Mae gwrthwynebiad meddai Iesu'n anrffod. Ond drwy bob amgylchiad cawn gyfle i "ddwyn tystiolaeth" i Arglwydd y Deyrnas. Daw gwrthwynebiad o lefydd annisgwyl- gan lywodraethau, o ganol ein teuluoedd hyd yn oed. Mae rhywbeth am enw Iesu sy'n pegynnu barn!

Ond beth os na wyddom beth i'w ddweud neu beth os nad yw pobl yn credu'n hamddiffyniad? Peidiwch â phoeni – mae Ysbryd Duw o'ch mewn yn eich tywys i fod yn ddoeth ac yn hyderus. A beth os fydd yr her yn ormod i'w ddiodeff? Addewid Iesu yw hyn- fe fydd y rhai sy'n parhau hyd y diwedd yn cael eu hachub. Nid dyfalbarhad sy'n ennill "achubiaeth" ond gwaith gras ynom sy'n ein galluogi i ddyfalbarhau hyd y diwedd.

Mae amser yn fyr. Mae'n hamser yn fyr. Mae'r cynhaeaf yn fawr. Mae'r alwad yn fawr. Mae'r her yn fawr. Ond diolch Iddo. Mae'r Arglwydd yn fwy na'r cyfan oll a'i deyrnas dragwyddol a'i heddwch tragwyddol yn sicr o gyrraedd ei benllanw!

**EMYN 746** – Dilyna fy mugail

## GWEDDI A'R FENDITH

O Arglwydd ein Duw, rwyf bob amser yn deilwng o'n mawl a'n haddoliad. Nid wyt ti byth yn torri dy Air na'th addewidion. Diolchwn i ti ein bod ym mywyd, marwolaeth atgyfodiad a theyrnasiad yr Arglwydd Iesu Grist yn cael deall go iawn beth yw cariad, cyfiawnder, trugaredd, a buddugoliaeth ar holl alluoedd y fall. Tyrd atom heddiw yn dy gariad. Yng nghanol byd mor anghyfiawn tyrd atom mewn cyfiawnder. Mewn oes lle mae pobl yn cael eu gwasgu gan amgylchiadau, tyrd atom mewn trugaredd. Ac mewn oes lle mae pobl yn gwangalonni, tyrd atom mewn nerth i'n hadfywio a'n hysbrydoli. Hyn a ofynnwn er mwyn Iesu Grist drwy'r Ysbryd Glân. Bendigedig fyddo dy enw yn oes oesoedd. Amen.

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: [goleuad@ebcpcw.cymru](mailto:goleuad@ebcpcw.cymru)

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.